# Prosiect Ysgol Creadigol 2017-18

Yn ystod Tymor yr Hydref 2017 daeth Gai Toms a Gwion Aled at Blwyddyn 2 i gynnal prosiect creadigol. Roedd yr ysgol wedi cael grant gan 'Cyngor Celfyddydau Cymru'. Mae Gai yn canu ac yn chwarae'r gitar, ac mae Gwion yn actio ac yn dda am wneud fideos hefo 'I movei'. Roedd rhaid iddyn nhw gael cyfweliad gan y plant cyn cychwyn y prosiect.

Teitl y prosiect oedd:

Archwilio sut y gall rhigymau a gemau buarth sefydlu patrymau brawddegol Cymraeg i iaith bob dydd plant Blwyddyn 2, ac ehangu ar y defnydd o'r gofodau amrywiol ar dir yr ysgol.

Daeth Gwion a Gai i'r ysgol bob Dydd Iau am wyth wythnos. Bu Gai yn ysgrifennu caneuon gyda'r plant a creu gemau buarth yn Gymraeg i fynd hefo rhai o'r caneuon. Roedd Gwion yn creu gemau buarth gyda'r plant ac wedyn yn creu fideos byr i fynd hefo'r caneuon a'r gemau! Roedd Gai a Gwion yn defnyddio patrymau brawddegol yr ysgol.

Roedden nhw'n defnyddio gwahanol rannau o'r ysgol – yn enwedig yr ardal tu allan. Roedd y plant wrth eu boddau yn gweld Gai a Gwion yn cyraedd yr ysgol.

Cawsom 'Brynhawn Dathlu' i ddangos y gwaith i'r rhieni a'r Llywodraethwyr. Roedd rhaid iddyn nhw ddod tu allan I chwarae'r gemau hefo'r plant – reodd hi'n oer iawn iawn!!

Cawsom wasanaeth arbennig I ddangos y gwaith I'r plant ac athrawon yn Ysgol Deganwy.

Ym mis Ebrill 2018 aeth pymtheg o blant i lawr i'r Tate Modern yn Llundain gyda Gai a Gwion, er mwyn dangos y gwaith i bawb!

Mi wnaethon nhw ysgrifennu cân gyda Gai am y trip i Lundain, creu lluniau cefndir a gwneud fideo hefo Gwion yn ystod y prynhawn yn y galeri.